

Beth yw Bioamrywiaeth?



Ystyr lythrennol 'bioamrywiaeth' yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob planhigyn ac anifail byw a'r ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt. Mae bioamrywiaeth ymhobman, mewn gerddi, parciau, ymylon ffyrdd, caeau, mynyddoedd, afonydd ac yn y môr.

Braint Sir Gaerfyrddin yw bod ganddi amrywiaeth cyfoethog o fioamrywiaeth, o'r ucheldir gerwin a'r coetiroedd deri llethrog yng ngogledd-ddwyrain y sir i'r cynefinoedd amrywiol ar lannau Bae Caerfyrddin. Ar hyd a lled y tir amaethyddol ac ar gyrion yr ardaloedd trefol mae rhwydwaith o gynefinoedd bywyd gwyllt - cloddiau, coedwigoedd, corstiroedd a nentydd - y cyfan yn gyforiog o rywogaethau, sy'n dylanwadu'n drwm ar gymeriad y dirwedd a'i phrydferthwch naturiol. Mae bioamrywiaeth y sir yn cyfrannu at ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n elfen bwysig yn y diwydiannau twristiaeth a hamdden yn lleol.

Y Camau Gweithredu er mwyn Hybu Bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin

Yn dilyn Uwch-gynhadledd y Byd yn Rio yn 1992, aeth Llywodraeth Prydain ati i gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar lefel genedlaethol, gan argymhell y dylid paratoi cynlluniau lleol yn ogystal. Diben Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yw rhoi'r cynllun cenedlaethol ar waith ar lefel leol. Mae'n cael ei lunio gan bartneriaeth o 17 o gyrff sydd yn cysylltiedig â gwarchod bywyd gwyllt i sir. Bydd y Cynllun yn cynnwys cyfres o gynlluniau gweithredu fydd yn cynnwys rhywogaethau a chynefinoedd yn y sir sydd dan fygythiad neu sy'n dirywio'n genedlaethol, yn ogystal â rhywogaethau neu gynefinoedd sy'n prinhau yn lleol. Bydd yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwastadeddau llawr gwlad, coetir ar yr ucheldir, y wiwer goch a'r lygoden ddwr.

Bydd pob cynllun gweithredu yn cynnwys prosiectau fydd â'r nod o ddiogelu'r cynefin neu rywogaeth arbennig honno o fewn y sir. Os yw'r prosiectau hyn i lwyddo, bydd angen i nifer o unigolion a chyrff weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth - gan gynnwys perchnogion tir, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau gwarchod bywyd gwyllt, awdurdodau lleol a diwydiant.



Mae rhostiored Mynydd Mallaen a Mynydd Llanllwni yn bwysig oherwydd eu planhigion a'u hadar; ac mae'r coetiroedd deri yn yr ucheldiroedd yn gyforiog o gennau, rhedyn a mwsoglau. Mae Gwiwerod Coch yn byw yn y coedwigoedd conwydd mwyaf anghysbell, ac mae Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn ceisio sicrhau na fydd y dulliau o reoli'r coedwigoedd yn peryglu'r rhywogaeth mewn unrhyw fodd.



Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi dechrau adfer coetiroedd llydanddail y Cynulliad, gan gael gwared â'r coed conwydd sydd wedi eu plannu o dan y coed llydanddail. Y gobaith yw y bydd yr ardaloedd hyn yn ailgynnal yr ecosystemau a gysylltir â'n coetiroedd deri ac ynn. Hefyd mae Coed Cymru yn ceisio gwella cyflwr ein coetiroedd llydanddail, gan hybu'r we gymhleth o fywyd y maent yn gallu eu cynnal.




Mae tir sy'n cael ei amaethu yn ofalus yn dal i allu cynnal amrywiaeth o gynefinoedd. Drwy Gynghrair Gwiwffodolwyr a Ffermwyr y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, cynhelir arolygon yn rheolaidd ar rai ffermydd yn Sir Gaerfyrddin, gan roi cyngor ynghylch gwneud tir amaeth yn fwy atyniadol i adar megis y Llinos, sef aderyn tir amaeth sydd wedi prinhau yng Nghymru ac sy'n hoffi nythu mewn perthi trwchus.



Mae cyrsiau afon Teifi ac afon Tywi yn newid yn barhaus gan greu amrywiaeth o gynefinoedd - gyda'r traethau graean ar ddoleniadau afon Tywi yn cynnal pryfed ac adar prin, a chydag Elyrch y Gogledd o Wlad yr Iâ yn bwydo ar laswelltiroedd llai y dyffryn yn ystod y gaeaf. Ym Mharc Dinefwr mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rheoli'r glaswelltiroedd hyn er lles Corchwilog, sef aderyn cyfarwydd tan yn ddiweddar ond sy'n prinhau ledled Prydain.




Mae bron i 20% o borfeydd glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwyn Cymru yn Sir Gaerfyrddin, a hynny'n bennaf ar y maes glo. Mae pori neu dorri priodol yn hanfodol er mwyn diogelu'r cynefin hwn a'r rhywogaethau cysylltiedig, megis carwas troellog a britheg y gors. Mae Prosiect Britheg y Gors Mynydd Mawr yn anelu at wneud hyn yn ardal Cross Hands.



Mae arfordir ac aberoedd Bae Caerfyrddin yn nodedig am eu fflatiau llaid a thwyod. Maent yn cynnal hyd at 25,000 o lyngyr y traeth, abwyd y môr; a malwod bychain y metr sgvâr; gan eu gwneud yn ardaloedd bwydo pwysig i adar. Mae'r môr ym Mae Caerfyrddin yn cynnal 43% o'r Môr-hwyaid Du - sef ymwelwyr o Norway a Gogledd Rwsia - sy'n gaeafu ym Mhrydain er mwyn bwydo ar bysgod bychain ac ar anifelliad di-gswgrn-cefn y môr.

The coast and estuaries of Carmarthen Bay are noted for their mud and sand flats. Mudflats support up to 25,000 lug and ragworms and small snails per m² - an indispensable food supply for birds. Farther out to sea in Carmarthen Bay, 43% of the UK's over-wintering population of Common Scoter duck - visitors from Norway and northern Russia - congregate to feed on small fish and invertebrates.

Prif Gynefinoedd Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire's Main Habitats



- Rhostiored agored / Open moorland
- Coetiroedd a choedwigoedd / Woodlands and forestry
- Tirwedd amaethyddol, gyda phethi sy'n gyforiog o rywogaethau, a dyfrffosydd / Agricultural landscapes, with species-rich hedgerows and water courses
- Glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau / Species-rich grassland
- Cynefinoedd arfordirol / Coastal habitats

What is Biodiversity?

Biodiversity is literally the diversity of life on earth. It embraces all living plants and animals and the ecosystems on which they depend. It is found all around us, in gardens, parks, roadside verges, fields, mountains, rivers and in the sea.



Carmarthenshire is blessed with an incredible variety of biodiversity, from the rugged uplands and their steep oak woodlands in the north east of the county, to the varied coastal habitats of Carmarthen Bay. Throughout the agricultural land and around the urban areas runs a network of wildlife habitats - hedgerows, woods, wet meadows and watercourses - all rich in species, which greatly influences the character of the landscape and its natural beauty. The biodiversity in the county contributes to the quality of life of the people who live and work in Carmarthenshire, and is a significant element in the local tourism and recreation industries.

Action for Biodiversity in Carmarthenshire

Following the 1992 Earth Summit, the Government initiated the production of Biodiversity Action Plans both at the national and the local level. The purpose of the Carmarthenshire Local Biodiversity Action Plan (LBAP) is to implement the national plan at a local level. It is being produced by a partnership of 17 organisations concerned with the conservation of the county's wildlife. The LBAP will contain a series of action plans covering the nationally threatened or declining species and habitats in the county as well as species and habitats of local concern. It will include for example, action plans for lowland wood pastures, upland oak woodlands, red squirrel, and water vole.

Each action plan will include projects aimed at safeguarding that particular habitat or species within the county. If these projects are to succeed they will require a number of organisations to work together in partnership - land owners, government agencies, wildlife conservation groups, local authorities and industry.